
Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# GWARCHOD EIN MYNYDD



gan Iona Towler-Evans

Cyfieithiad gan Transl8

**CALON AFAN**

Cwmni Buddiant Cymunedol Calon Afan Community Interest Company

2 Brookway Close, Port Talbot, SA12 8EL   Rhif y Cwmni/Company number: **15284549**

**www.calonafan.org**

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

# RHAGAIR

Yma ‘rydym am gyflwyno ein dull o archwilio gyda phlant y digwyddiadau cyffrous yn ein cynefin dros 1000 o flynyddoedd yn ôl. Elwir y dull hwn yn Ymholi Dramatig, term a fathwyd gan Brian Edmiston (2014).

‘Rydym yn dadansoddi’r dull hwn fel ffordd o wahodd pobl ifanc i archwilio, ochr yn ochr â chi yr athro, storïau dramatig o’r gorffennol; yn yr achos hwn, gan ffocysu ar storïau a digwyddiadau yn yr ardal leol, yn yr Oesoedd Canol, yn ogystal â storïau o’r presennol, ac ystyried storïau’r dyfodol.



Iona Towler-Evans

2024

# GWARCHOD EIN MYNYDD

Drwy ddefnyddio Ymholiad Dramatig gallwn arbrofi ffyrdd posibl o berthyn â'n gilydd, ac mewn perthynas â pha bynnag bwnc yr ydym yn ei archwilio (Edmiston & Towler-Evans, 2022). 'Rydym o'r farn taw pwysigwrydd pecyn o'r math hwn yw ei fod yn gosod Cymru wrth galon y stori.

'Rydym yn gobeithio, ac yn bwriadu, y bydd yn pecyn yn ein hannog i ystyried hanes o bersbectif Cymreig, ac mae hynny'n cynnwys tiroedd Cymru, ei bobl a'i ddiwylliant ac yn cyfrannu at Gynefin fel y'i diffinir yn y Cwricwlm i Gymru.

Mae ein dull o ddadansoddi drama mewn addysg yn cynnwys ei defnyddio i'n helpu dychmygu cyfnodau a llefydd eraill, i ddramateiddio digwyddiadau mewn bydoedd ffuglennol, yn seiliedig ar ffeithiau hanesyddol; yna, bydd y plant a'r athro yn gallu dychmygu gyda'i gilydd, fel bod y plant yn cael y cyfle i ofyn cwestiynau am y gorffennol, cwestiynau sy'n bertyhnasol i'w treftadaeth. Felly,'rydym yn cynnig strategaethau a chonfensiynau, yn seiliedig ar waith Dorothy Heathcote (1984, 2003) i adeiladu'r bydoedd hyn, ynghyd â chanllawiau defnyddiol pan yn eu defnyddio gyda phlant.

Mae'r dull ymholi dramatig yn ein helpu ni i adeiladu cyd-destun ystyrlon, sy'n ymgysylltu â, ac yn bwrpasol at, ystod o bosibiliadau traws-gwricwlaidd. Mae rhestr o strategaethau i'w gweld yn Atodiad 1.

**Mae'r dull yn rhannu i bedair rhan fel a ganlyn:**

**Rhan 1 Dathlu Diwylliant Cymreig – cyn i'r Normaniaid gyrraedd**
**Rhan 2 Ymosodiad (ymosodiad cynnar y Normaniaid ar Gymru tua 1081)**
**Rhan 3 Sut yr ydym wedi dysgu cyd-fyw – cydbriodi a diplomyddiaeth**
**Rhan 4 Cysylltu'r gorffennol gyda'r presennol a'r dyfodol**

‘Rydym yn awgrymu ffyrdd o drafod pob darn o’r gwaith, rhannau sydd wedi’u cynnlunio yn ddilyniannol, er mwyn galluogi plant i ddychmygu byd y bobl lleol yng Nghymru, cyn dyfodiad y Normaniaid, fel bod ganddynt cyfle i fuddsoddi yn y gwaith, cyn eu bod yn symud ymlaen at yr ymosodiad a’r ffordd roedd y Normaniaid a’r Cymry yn cyd-fyw.

**Y Fideo**

I’ch helpu chi gyflwyno pob rhan o’r prosiect, ‘rydym wedi darparu fideo mewn pedwar rhan, gyda storïau sy’n adlewyrchu ffocws Rhan 1, ac yn cynnwys deunydd hygyrch a gweladwy sy’n berthnasol i’r prosiect.

Mae modd defnyddio’r fideo ochr yn ochr â’r dull Ymholi Dramatig ac/neu mewn ffyrdd eraill.



Brwydr Damietta in 1218 Čeština: Bitva u Damietty Ailgynhyrchiad tir cyhoeddus tudalen llawysgrif addurnog o’r canol oesau.

## Afan cudd Safbwyntiau Rhan 1: Dathlu Dywylliant Cymreig cyn dyfodiad y Normaniaid, tua 1081

### Storïau sy'n ystyried y cyfnod cyn dyfodiad y Normaniaid.



Brenin Hywel Dda. O gopi Lladin Cyfreithiau Hywel Dda, Llyfrgell Genedlaethol Cymru Llawysgrifau Peniarth. Wikimedia Commons

Mae cerddoriaeth/ caneuon Cymru yn cael eu chwarae fel cefndir i olygfeydd o Fynydd Dinas, Port Talbot. Perspectifau pobl a nodweddion o'r gorffennol, a'r presennol yn adlewyrchu'r cyfnod hwnnw. Gallwch ddefnyddio Rhan 2, Deunydd Hanesyddol, i ddod o hyd i wybodaeth am fywyd bob dydd yn yr Oesoedd Canol. 'Rydym wedi cynnwys tri esiampl y byddwch efallai am rannu gyda'r plant, ond mae'n siwr y bydd gennych rolau eraill y byddwch am gyflwyno:

1. Safbwynt ffermwr Cymreig ar ochr y mynydd yn chwilio am ddafad gol.
2. Safbwynt ywen yn y fynwent. Tybed beth mae'n gweld a phwy mae'n gweld. Pe byddai ond yn gallu siarad gyda ni....
3. Safbwynt bardd/ canwr sy'n ysgrifennu/ canu am y mynydd.

**Cwestiynau ymholi posibl:**

- **Sut olwg oedd ar fywyd mil o flynyddoedd yn ôl, cyn dyfodiad y Normaniaid yn 1081? (Mae hyn yn fwy ffeithiol)**
- **Beth oedd yn gwneud bywyd yn gyfoethog a gwerth chweil?**
- **Beth oedd yn ei wneud yn heriol?**
- **Beth gafodd ei ddathlu?**

**Camau posibl:**

Mae modd cyflwyno'r plant i Fideo Rhan 1, lle y gallant weld a chlywed storïau am ddiwylliant Cymreig o wahanol safbwyntiau. Bydd hyn yn eu paratoi i ymgysylltu â gweithgareddau a fwriedir i ddychmygu bywyd mewn cymuned Gymreig yn y gorffennol. Bydd y safbwyntiau llafar yn cael eu cyflwyno yn erbyn cefndir yn darlunio Mynydd Dinas.

Mae'r pecyn yn darparu syniadau ac adnoddau am greu map o ardal yng Nghymru (ardal fel Mynydd Dinas) fel y'i adlewyrchir yn y fideo.

'Rydym yn awgrymu defnyddio map wedi'i wneud o frethyn a chreu cyfuchliniau o bapur newydd wedi'i gywasgu'n beli i greu ardaloedd mynyddig, deunydd am yr afonydd a gwlân o wahanol liwiau a deunydd i gynrychioli'r goedwig. Gallwch ail-ymweld â'r map wrth ichi weithio drwy'r pecyn a gall fod yn ddefnyddiol i'r plant wrth iddynt adnabod llefydd eu bod yn gyfarwydd â, yn ogystal â newidiadau dros amser.

A. Archwilio sut roedd bywyd i bobl Cymru, gan weld y map o safbwynt Cymreig.

- Beth fyddai pobl yn gwneud yn eu bywydau bob dydd? Ydyn nhw'n Fugeiliaid? Yn ffermwyr? Oes ganddynt gychod ar yr Afon? Ydyn nhw'n pysgota?

- Sur roeddent yn teithio o le i le?

Ystyried bywyd pan roedd yn weddol sefydlog. Edrych ar ddelweddau o fywyd bob dydd (Gweler Rhan 2: Deunydd Hanesyddol e.e. Swyddi) i gefnogi'r weithgaredd.

Efallai y bydd y dosbarth am gynrychioli'r bobl a chreu delweddau llonydd (tableaux) o'r hyn maen nhw'n gwneud. Mae disgrifiad llawnach o Tableaux, a sut y gallwch ei ddatblygu i'w weld yn Atodiad 1.

i. Archwilio rhai o'r arfau a ddefnyddiwyd gan bobl cyffredin Cymru pan roedd eu tywysogion yn eu galw i ryfel. Sut roeddent yn amddiffyn eu tir a'u hunain rhag ymosodwyr? Efallai y byddai'n ddefnyddiol trafod yr hyn nad oedd ganddynt, megis dryllau ac arfau modern, neu waywffyn soffistigedig fel oedd gan y Normaniaid. (Am ddelweddau o'r arfau gweler y Blygell: Deunydd Hanesyddol). Byddai cael y cyfle i drafod rhai eitemau go-iawn o ddiddordeb i'r plant.

ii. Dodwch y map ar y llawr a gofynnwch i'r plant sefyll o'i gwmpas. Gwahoddwch nhw i ddychmygu eu bod yn sefyll neu'n eistedd mewn lleoliad arbennig ar y map ar ddiwrnod yn y cyfnod hwn. Efallai y byddwch am fodelu i'r plant gan ddewis lleoliad ar y map a dweud, er enghraifft, 'Dw i'n sefyll, yn cyrcydu neu'n cuddio.... y tu ôl i/o flaen... ac oddiyma dw i'n gallu gweld....... a chlywed......'gall pawb wneud y sŵn gyda'i gilydd neu ddefnyddio offer taro i greu'r sain. Ar hyn o bryd nid oes rhaid iddynt bortreadu pobl, ond efallai y bydd rhai o'r plant am wneud hyn.

Gallwch wahodd y plant i gofnodi eu hymatebion ar bapur. Gallant ddatblygu rhain maes o law i lunio'u storïau neu eu cerddi eu hunain.

iii. Defnyddiwch y gêm 'Croeswch y Cylch' (gweler Atodiad 1) i ymgorffori a rhannu peth o'u gwybodaeth flaenorol, yn ogystal â'u syniadau. Gwahoddwch y dosbarth i sefyll mewn cylch a chroeswch y cylch er mwyn ymgorffori syniadau fel y canlynol:

- Croeswch y cylch fel y byddai person o'r cyfnod yn gwneud, gan deithio o un man i'r llall. Sut y byddwch yn gwneud hyn?
- Croeswch y cylch fel eich bod yn edrych ar ôl eich gwartheg neu ddefaid.
- Croeswch y cylch gan esgus eich bod wedi'ch dal mewn storm fellt a tharanau ac mae eich cnydau mewn perygl o gael eu difa.
- Croeswch y cylch fel eich bod yn defnyddio un o'r arfau i geisio atal gelyn.
- Croeswch y cylch gan esgus eich bod yn cropian drwy'r goedwig, gan geisio wneud heb i neb eich gweld neu eich clywed.

Gallwch chi ymuno â'r plant. Soniwch am yr hyn maen nhw'n gwybod, ac am wybod. Gallwch chi gyfleu gwybodaeth iddynt drwy weithred e. e. Sut y mae corlannu defaid.



Aradu yn y canol oesoedd
https://allisondreid.com/2017/03/06/medieval-monday-the-labors-of-march/

## Afan Cudd Safbwyntiau Rhan 2: Ymosodiad

### Safbwyntiau o'r ddwy ochr y frwydrau



Gan Dan Koehl - Tapestry de Bayeux, CC BY-SA 3.0,
https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=658776

Mae'r adnodd hon yn cael ei chefnogi gan gerddoriaeth sy'n awgrymu martsio i ryfel. 'Rydym wedi cynnwys y safbwyntiau canlynol y gallwch rhannu gyda'r plant, a'r gerdd gan Paula Denby (No?? Adran 3) a fydd yn cefnogi'ch defnydd o lefaru:

1. Cerdd gan Paula Denby 'Y Frwydr'.
2. Safbwynt marchog ifanc Normanaidd, yn mynd i frwydro am y tro cyntaf.

Mae'r fideo yma hefyd yn cynnwys dwy stori ffuglennol am farwolaeth y milwr Normanaidd, Herbert FitzMatthew, wedi'i ddarllen gan y storïwr, Owen Staton.

- Stori yn Saesneg gan Sally Roberts Jones
- Stori yn Gymraeg gan Menna Moras
- Mari Lwyd Cwmafan, wedi'i addasu o gofnodion gan Tim Rees.

Bydd dod o hyd i benglog ceffyl yn cael ei drafod yn Rhan 4, wrth inni ystyried sut y mae'r stori wedi parhau hyd at heddiw.

**Cwestiwn ymholi posibl:**

**Ym mha ffordd y byddai pobl Cymru wedi ymateb i'r ymosodiad?**

**Camau posibl:**

i. Cyflwynwch y syniad y byddai math arall o ymosodiad, nid yn unig ein cweryla arferol, ond gan lu gwahanol. Gall yr athro gynrychioli un o'r bobl sy'n byw ar y mynydd.

Gallwch awgrymu'r canlynol i'r dosbarth,

*'A allwn ni gytuno fy mod yn un ohonoch chi, un o'r Cymry, y ffermwyr, y masnachwyr yn y gymuned hon? Ble allech chi fod pan fy mod i'n cyrraedd gyda'r newyddion?'*

Efallai y bydd y plant yn cytuno eu bod yn cynnal cyfarfod yn y gymuned i drafod pryderon am y cnwd neu beth bynnag mae'r plant yn penderfynu arno. Gallwch chi gytuno i hynny wrth ichi gerdded drwy'r drws neu leoliad yn eich ystafell ddosbarth, hynny yw pan y byddwch yn cynrychioli rhywun sy'n dod â neges iddynt.

*'Mae'r Normaniaid yn dod; mae pobl y pentref yn sôn am y peth yn y pentref……maen nhw'n teithio o'r Dwyrain. Maen nhw'n dweud eu bod wedi goresgyn tir y Saeson a bod llawer ohonynt......'.*

Gall yr athro ddangos ffotograffau neu ddarluniau, neu unrhywbeth sy'n gallu cyflwyno'r Normaniaid (o bosib, gan gynnwys replica o arf/au go-iawn).

Efallai y byddai astudio llun o Dapestri Bayeux a/neu luniau gan Matthew Paris yn ddefnyddiol (gweler Rhan 2) er mwyn cael golwg ar yr arfau a'r arfwisg y byddai'r Normaniaid yn defnyddio pan yn ymladd yn Lloegr a Chymru.

Edrychwch ar ran o Dapestri Bayeux. Dewch o hyd i luniau ohono a dodwch nhw ar y llawr, gan esbonio eu bod yn cofnodi'r ymosodiad a ddigwyddodd 25 mlynedd ynghynt pan roedd y Normaniaid wedi trechu'r Eingl Sacsoniaid. Byddant yn sylwi ar y delweddau o'r ymladd.

Efallai y bydd y cwestiynau canlynol yn arwain y ddeialog o safbwynt y Cymry:

*'Beth sy'n ein wynebu?'*
*'Beth sydd gan y Normaniaid, yn nhermau'r nifer o ddynion, arfwisg ac arfau. Erbyn hyn, efallai bod ganddynt mwy fyth o reini a gwell arfau'*
*'A oes ganddynt gwell arfau na sydd gennym ni?'*
*'Oes golwg hyderus arnynt?'*
*'Pa obaith sydd gennym ni?'*

Gall yr athro ddychwelyd at y stori fel y negesydd, a'r plant fel pobl y mynydd; gall siarad â nhw a'u cwestiynu. (Yn Atodiad 1 'rydym wedi darparu canllawiau i'ch helpu chi wneud hyn, a sut mae delio â sefyllfa annisgwyl).

ii. Efallai yr hoffech rhoi'r cyfle i'r plant fyfyrio ar yr hyn maen nhw'n gwybod, yn credu eu bod yn gwybod ac am ddarganfod. Yr hyn 'rydym yn ei wybod yw'r hyn y mae pawb yn cytuno sydd wedi digwydd mewn gwirionedd. Yr hyn 'rydym yn credu ein bod yn gwybod yw ystod o syniadau gwahanol gan blant unigol. Bydd yr hyn 'rydym am ddarganfod yn ein llywio wrth i ni symud ymlaen.

Gallwch rhannu'r colofnau ar siart troi fel a ganlyn:

- ***Yr hyn 'rydym yn gwybod*** *e.e.*
    - *Bod y Normaniaid am ddwyn ein gwlad*
    - *Eu bod yn fygythiad i'n gwlad/tir*

- ***Yr hyn 'rydym yn credu ein bod yn gwybod*** *e.e.*
    - *Maen nhw'n bwerus*
    - *Mae ganddynt fyddin fawr*

- ***Beth 'rydym am ddarganfod?*** *e.e.*
    - *Pam 'rydynt am hawlio tir nad yw'n eiddo iddyn nhw?*
    - *Beth 'roeddent yn gobeithio cyflawni?*
    - *Sut roedd y Cymry wedi delio â nhw?*

iii. Mae'n debygol y byddant am wybod sut oedd y sefyllfa adeg cyrraedd y Normaniaid, a sut ymateb y mae'n rhaid iddynt benderfynu arno.

Awn yn ôl at y stori, gan gynrychioli'r Normaniaid. Gallwn eu dychmygu mewn rhes, gyda'i arfau, eu tariannau a'u helmau. Gall y plant ddefnyddio'r delweddau a ddefnyddiwyd yn yr ymarfer diwethaf i'w cefnogi wrth iddynt osod eu hunain, gan esgus eu bod yn rhan o fyddin Normanaidd. Gallwch wahodd un neu ddau o'r plant i gamu allan i weld y ddelwedd o'r fyddin Normanaidd y mae'r plant eraill wedi'i ffurfio ac ystyried, *'Sut oedd y Cymry yn gweld hyn; beth oedd yn mynd drwy eu meddyliau?* Mae'n bosib defnyddio cerddoriaeth i bwysleisio'r digwyddiad, eu bod yn martsio i ryfel (ar gael yn Rhan 2 o'r Fideo).

Gan gamu'n ôl i fyd y stori, fel athro gallwch gynrychioli'r arweinydd, gan ddarllen o sgrôl (am esiampl o sgrôl gweler Rhan 3); rhywbeth tebyg i'r canlynol

*'Rydym wedi dod i hawlio'r tir yma fel rhan o'i diroedd ei hun, ar orchymyn Brenin Lloegr. Ydych chi'n barod? Dangoswch eich arfau i ni. Mae gennych tan ganol dydd i ildio'*

iv. Gallech ofyn y cwestiwn, gan gymryd eich bod yn amddiffynwyr Cymreig:

*'Beth wnawn ni? Mae gennym bedwar opsiwn – gallwn ildio, cuddio, trafod neu ymladd'.*

Myfyriwch gyda'r plant ar gryfder pob opsiwn. Gan ddefnyddio drama, gallwch brofi pob un ohonynt.

a) Gallwn brofi'r opsiwn o ymladd. Defnyddiwch '*Silent in the Woods'* gan Paula Denby (Rhan 3 a Fideo Rhan 2) i ddarlunio'r weithred; gallwn wrando ar hyn yn Rhan 2 o'r Fideo, neu efallai y bydd yr athro am ei darllen wrth bod y dosbarth yn penderfynu ar ei sefyllfa, a ddychmygwyd o'r map ond a ymgorfforwyd yn yr ystafell ddosbarth. Gall y plant benderfynu ar dri safbwynt i'w cymryd i adlewyrchu penillion y gerdd, a gallant symud o un safbwynt i'r llall wrth i'r athro lefaru'r gerdd neu chwarae'r fideo.



Marwolaeth Herbert FitzMatthew gan Matthew Paris C 1350
Matthaei Paris Chronica Maiora II Parker Library, Corpus Christi College, Cambridge.

b) Os byddwn yn penderfynu cuddio, gallwn adnabod llefydd da i wneud hynny gan ddefnyddio'r map. (Mae llefaru posib wedi'i ddarparu mewn esiampl o Lais Llefaru mewn Confensiynau Dramatig, Atodiad 1)

c) Trafod. Gall y dosbarth baratoi'r ffordd orau o drafod gyda'r Normaniaid.

*Beth fyddai o bwys iddynt?*
*Sut y gallwn eu perswadio i ail-ystyried cael eu dal?*
*Beth 'rydym yn barod i roi'r gorau iddo?*
*Sut gallwn drafod gwneud cytundeb?*

ch) Ildio. Gwahoddwn y plant i ddadlau o blaid, ac yn erbyn, ildio.

v. Efallai bod y plant am roi tro ar strategaeth a elwir Llwybr Cydwybod (gweler Confensiynau Dramatig yn Atodiad 1). Yn y strategaeth hon mae hanner y plant yn ffurfio rhes ar un ochr tra bod y gweddill yn sefyll ar yr ochr arall. Mae un ochr yn cynrychioli'r rhai sy'n meddwl y dylwn guddio neu ildio, tra bod yr ochr arall yn cynrychioli'r rhai sy'n meddwl y dylwn ymladd neu drafod. Mae'r ddwy ochr yn cynrychioli 'cydwybod' y fyddin Gymreig. Gall yr athro neu blentyn gynrychioli un o'r ymladdwyr Cymreig. Wrth iddynt gerdded rhwng y ddwy rhes gall pob plentyn (o'r llinellau) rhannu sylw o'r hyn y mae'n feddwl (fel yr ymladdwyr Cymreig), er enghraifft, gall plentyn o un ochr ddweud,

*'Rhaid inni ymladd dros yr hyn sy'n eiddo i ni'* - neu
'*Ni allwn ddangos gwendid drwy guddio'.*

Ar y llaw arall, gall plentyn o'r rhes arall ddweud:

*''Rhaid cuddio; 'rydym yn gwybod am lefydd yn y goedwig na fyddant fyth yn dod o hyd i ni'* neu
*'Os na allant ein gweld byddant yn gadael llonydd i ni, a bydd ein teuluoedd yn ddiogel'.*

Fel cynrychiolydd yr 'ymladdwyr' Cymreig, bydd y plentyn/ yr athro yn y canol yn penderfynu ar ba gwrs y dylai gymryd, ac yn nodi hyn drwy symud i safle arbennig y cytunwyd arno ar ddiwedd y rhes.

Gyda gweddill y grŵp, gall y plentyn/ athro yn y canol fyfyrio ar ei benderfyniad. Ar ba bwynt cafodd y penderfyniad ei wneud? Neu a oedd y person heb benderfynu? Beth a glywyd o'r rhesi a oedd wedi dylanwadu ar ei benderfyniad? (Am fanylion a chanllawiau ynghylch y confensiwn Llwybr Cydwybod, gweler Confensiynau Dramatig, Atodiad 1).

Er mwyn archwilio safbwynt y fyddin Normanaidd, efallai y byddwch am ddefnyddio'r strategaeth Llwybr Cydwybod unwaith eto, ond y tro hwn gan gynrychioli arweinydd y fyddin Normanaidd, sy'n dweud:

*'Rydym wedi dod i hawlio'r tir yma fel rhan o'i diroedd ei hun, ar orchymyn Brenin Lloegr. Ydych chi'n barod? Dangoswch eich arfau i ni. Mae gennych tan ganol dydd i ildio'*

vi. Symudwn at hanes Herbert FitzMatthew; gallwn wrando ar y stori yn Fideo 3 (yn Saesneg) a 4 (yn Gymraeg) a 5, Mari Lwyd Cwmafan.

Roedd milwr troed o Gymro wedi lladd Herbert FitzMatthew drwy daflu carreg fawr o uchder at y marchog – wedi hynny roedd ei geffyl wedi dianc a chael ei ddal gan ffermwr mynydd Cymreig lleol.

Myfyriwch ar yr hyn roedd y fath sefyllfa yn ei olygu yn nhermau'r berthynas rhwng y Cymry a'r Normaniaid.




Manylyn o finiatur ceffyl o gasgliad o anifeliaid gyda thestunau diwinyddol,Lloegr c. 1200 – c. 1210, Royal MS 12 C XIX, f. 34r

Ydy enwau llefydd ar y Mynydd yn awgrymu unrhyw ddigwyddiadau a oedd efallai wedi cymryd lle yno? (gweler Rhan 3).




1841 Map y Degwm Baglan yn dangos Tynytwr, Tŷ Newydd, Gadlish fach a Gadlish Isaf
Archifau Gorllewin Morgannwg




Atlas Van der Hagen KW1049B11 031-LLIA PRINCIPATUS Vulgo WALES..jpeg

## Afan Cudd Safbwyntiau Rhan 3: Priodas a Diplomyddiaeth

### Pwysigrwydd priodasau wrth ymdrechu am heddwch rhwng y Normaniaid a'r Cymry



Dyweddïad Richard II i Isabella of Valois; chwe mlwydd oed roedd hi.
Anonymous - http://www.luminarium.org/encyclopedia/richard2isabella2.jpg
Public Domain.

Meddyliau merch ifanc Gymreig sydd wedi'i haddo mewn priodas fel ffordd o gadw heddwch, a meddyliau bachgen ifanc sydd wedi bod yn briod ers iddo fod yn ifanc.

**Cwestiynau ymholi posibl:**

- **Ym mha ffordd y byddai'r Cymry a'r Normaniaid wedi llwyddo i gyd-fwy?**
- **Ym mha ffordd y byddai wedi bod modd sefydlu heddwch?**
- **Sut y byddai priodi wedi gwneud gwahaniaeth yn y berthynas rhwng y Normaniaid a'r Cymry?**

**Camau posibl:**

i. Fel athro, gallwch esbonio:

*Mewn rhai ardaloedd o Gymru roedd y Normaniaid a'r Cymry yn cyd-fodoli. Dyma a ddigwyddodd yma yn Afan. Pan fyddwch yn darllen yr hanes, mae datganiad sy'n dweud 'Dros amser roeddent wedi dod yn fwy o Normaniaid nag yr oeddent yn Gymry'* (Wicipedia)

Gofynnwch i'r plant gwestiynu ystyr hyn, ac i agenda pwy y mae'r datganiad yn perthyn:

*Tybed beth mae hynny'n golygu, ac o safbwynt pwy oedd rhywun yn credu bod y Cymry wedi troi'n fwy o Normaniaid?*
*Bydd hi'n ddiddorol meddwl am hynny, felly beth ydych chi'n credu y byddai wedi digwydd?*
*A oeddent yn gwisgo fel y Normaniaid? A oeddent yn rhannu unrhyw rhai o'u harferion?*

A allwn archwilio enwau teuluol pobl y cyfnod, a'r teitlau roeddent wedi'u mabwysiadu? Er enghraifft: Arglwyddi, gair sydd yn aml yn cael ei ddefnyddio pan yn cyfeirio at Dywysogion Cymreig Afan.

I ba raddau oedd y Cymry wedi amddiffyn eu harferion a'u diwylliant? (am wybodaeth ynghylch noddwyr barddoniaeth a cherddoriaeth, gweler Rhannau 2 a 3)

A oes 'na unrhyw arferion sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod hwnnw, sydd wedi cael eu gwarchod dros y blynyddoedd? Dyma agwedd y gall y plant ymchwilio iddo. (hefyd, gweler 'Mari Lwyd Cwmafan' yn Rhan 3)

Efallai bod hyn yn beth defnyddiol i fyfyrio yn ei gylch. Bydd yr athro yn tybio, gyda'r plant, '*pam hynny?'*

Annog y plant i rhannu eu dadansoddiadau.

**Mae'r storïwr yn parhau gyda'r hanes ar y fideo.**

Gwahodd y plant i adnabod hyn ar y map y maen nhw wedi'i greu.

Hefyd, mae tafarn yn y dref, wedi'i enwi ar ôl un o'r arglwyddi, yr Arglwydd Caradog, ond efallai na fydd ein map yn ymestyn cyn belled â hynny.….

i. Gallwch gyflwyno'r syniad o gyd-briodi.

Roedd priodi yn un ffordd o fod yn perthyn yn agosach.

*Tybed pwy oedd yn meddu ar farn bod penaethiaid teuluol yn trefnu priodasau? Tybed beth oedd eu barn nhw?*
*A fyddai'r bobl a oedd yn byw yng Nghwm Afan, yn tyfu eu barlys, wedi clywed am y fath beth? Beth fyddai eu barn nhw?*
*Beth oedd barn y merched, neu rywrhai a oedd wedi'u haddo i'w gilydd gan eu henuriaid? Roedd meibion yn wynebu yr un ffawd.... yn aml, roeddent yn cael eu dyweddïo pan roeddent dal yn blant bach.*
*Paham y byddai pobl y cyfnod hwnnw wedi cytuno ar ddyweddïo rhwng y Cymry a'r Normaniaid?*

Mae tair stori i ystyried, a chyfeirio atynt (gweler Rhan 3)

ii. Gall y plant ddewis safbwynt un person penodol.

Un syniad yw creu cardiau lliw sy'n cael eu codi yn yr awyr fel bod plentyn yn gallu ymuno â phlentyn arall sy'n dal cerdyn o'r un lliw; er enghraifft, gall cardiau gwyrdd fod ar gyfer pobl sy'n gweithio ar y tir, cardiau glas ar gyfer pobl sy'n perthyn i'r hierarchaeth, a'u rhesymau am weld priodas rhwng aelwyd Normanaidd a Chymreig, cardiau melyn ar gyfer y bobl ifanc y mae eraill wedi gwneud penderfyniad bywyd ar eu cyfer, ac yn y blaen.

Er enghraifft, ar gerdyn Hierarchies gallwch ysgrifennu'r safbwynt canlynol ar gyfer marchog:

*'Rhaid imi ei berswadio fel hyn, onibai bod fy mab yn priodi ei ferch y byddwn yn ymosod arno; o leiaf wedyn bydd gennym hawliad ar ei dir'*

*Pe byddwn wedi clywed y sgyrsiau a fu ynghylch hyn, beth y byddant wedi dweud? Gall y plant greu ond tair llinell o'r sgwrs i'w rhannu gydag eraill, a gallwn wrando ar sgyrsiau'n gilydd gan ddefnydio confensiwn a elwir 'Sgyrsiau a Glywyd; (gweler Confensiynau Ymholi Dramatig Atodiad 1).*

v. Datblygiad pellach o hyn yw bod y plant yn archwilio penbleth y ddau berson ifanc nad ydynt am ddyweddïo.

Mae'n bosibl defnyddio'r confensiwn Llwybr Cydwybod yma, gan ystyried goblygiadau dianc neu gwrthsefyll awdurdod eu henuriaid.

Gan ddefnyddio'r ymarfer hwn, gofyn i'r dosbarth ystyried goblygiadau gwrthryfela yn erbyn priodas a drefnwyd.

*Beth pe byddai un o'r ieuenctid yn dianc? I ble byddant yn mynd? Beth fyddai canlyniadau y weithred?*



Cist briodas o Duscani o'r unfed ganrif ar bymtheg.
Thomas Quine, CC BY 2.0 <https://creativecommons.org/licenses/by/2.0>, via Wikimedia Commons

## Afan Cudd Safbwyntiau Rhan 4: Ble 'rydym erbyn heddiw?

**Mae'r fideo yn archwlio agweddau modern heddwch yng Nghymru.**



Y Fari Lwyd Cas-Gwent
https://chepstowwassailmari.co.uk/about/

**Yn y rhan hon gallwn gynnwys yr hanes o ddod o hyd i benglog ceffyl o berspectif modern, ond ei rhannu o safbwynt y ffermwr sy'n adrodd y stori, ac yn ei chysylltu â thraddodiad y Fari Lwyd.**

**Cawn ystyried llefydd y dychmygwn ei bod yn debygol y byddai 'penglog ceffyl' yn cael ei ddarganfod heddiw. Ymhle y dychmygwn oedd y frwydr wedi digwydd**?

**Cwestiynau ymholi posibl:**

- **Sut mae'r gorffennol yn ymgysylltu â'r presennol, a beth yw rhai o'r goblygiadau at y dyfodol?**
- **Paham y mae bobl yn newid?**
- **Dros amser, beth sy'n newid a beth sy'n aros yr un peth?**
- **Pa storïau o hanes Cymru sy'n bwysig i'w cofio?**
- **Ym mha ffordd gallwn ni barchu'r storïau a drosglwyddwyd i ni?**

**Camau posib:**

Ar ôl gwylio'r adnodd fideo, trafodwch gyda'r plant stori'r Ceffyl Normanaidd; sut y mae'n dal i fynd ac efallai wedi newid gydag amser. Mae'n cynnig esiampl o'r ffordd y mae storïau yn parhau drwy'r cenedlaethau ac yn cael eu dathlu heddiw e. e. y Fari Lwyd (gweler Fideo 5: 'Mari Lwyd Cwmafan', a'r storïau yn Saesneg a Chymraeg).

Yn gysylltiedig â'r hanes am y milwr troed a laddodd Herbert FitzMatthew (y cyfeiriwyd ato yn Rhan 1), yn y rhan yma gallwn archwilio'r stori o ddal y ceffyl wedi'r frwydr, ceffyl a aeth ymlaen, o bosib, i genhedlu llinach o geffylau, a bod y brid wedi parhau ar fferm leol hyd heddiw.



Cathael Idris: Y Cob Cymreig Adran D
Own work, CC BY-SA 3.0, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=11099029

Efallai y bydd y plant yn ail-adrodd storïau sydd wedi bod yn rhan o'u bywydau hwythau am genedlaethau. Dyma bosibilrwydd am waith ymchwil unigol.

i. Fe allech ddychmygu sgwrs rhwng y ffermwr o gyfnod digwyddiad FitzMatthew, yr un a ddaliodd y ceffyl, a ffermwr o'r 1990au sy'n credu bod ei geffyl yn ddisgynydd i'r ceffyl a farchogwyd gan FitzMatthew; neu sgwrs rhwng FitzMatthew ei hun a'r ffermwr o'r 1990au, lle y gall y plant sgyrsio dros y canrifoedd gyda FitzMatthew (gweler Siarad Dros Amser, confensiwn ymholi dramatig Atodiad 1).

ii. Gall y plant weithio ar ddarn o Theatr Siambr lle y mae'r digwyddiadau yn cael eu hadrodd o wahanol berspectifau. Efallai y bydd rhain yn cynnwys storïau o'r gorffennol, yn gymysg gyda storïau o'r presennol. Mae Theatr Siambr yn ffordd da o ddefnyddio ysgrifennu naratif (am esboniad mwy manwl, gweler canllawiau Theatr Siambr yn Atodiad 2)

iii. Sut y mae'r gorffennol yn cysylltu â'r presennol.

Ble 'rydym erbyn heddiw? Pwrpas am eu gwaith, naill ai drwy ffuglen neu gyfathrebu'n uniongyrchol gyda'r gymuned.

Siarad ag hanesydd go-iawn: yn ddelfrydol byddai'n bosibl gwahodd hanesydd lleol sy'n meddu ar wybodaeth arbenigol (gweler y rhestr o enwau a manylion cyswllt yn Rhan 4)

Fel arall, byddai'n bosibl cyflwyno rôl yma, gyda'r athro yn cynrychioli hanesydd e.e. o gymdeithas hanesyddol. Gall y plant holi cwestiynau.

Un esiampl o gysylltiad modern i'r gorffennol yw'r Senedd, enw Cynulliad Cymru erbyn heddiw, i ddarlunio'r ffordd y mae arweinyddion Cymru yn cynrycholi'r bobl. Ydy hyn yn wahanol i'r sefyllfa a oedd yn bodoli yn yr Oesoedd Canol?



https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=24000265

Gallwch, o bosib, ddangos sioe sleidiau yn darlunio'r Senedd. Mae hwn yn rhywbeth i'w ddathlu – Cynulliad Cymru a'r Cwricwlwm Cymreig.

Nid yw hyn yn golygu ein bod yn well 'na gwledydd eraill megis Lloegr ond, erbyn hyn, mae gennym fwy o reolaeth ddemocratig. Mae'r stori a archwiliwyd yn Rhan Un yn esiampl o ddiwedd rheolaeth leol oherwydd tra-arglwyddiaeth yr Eingl-Normaniaid. Roedd y Normaniaid wedi ymosod ar Loegr yn y lle cyntaf, ac wedi gorchfygu'r Eingl-Sacsoniaid; felly nid oedd y Saeson wedi gwneud hyn ond i Gymru'n unig.

**Sut y mae storïau yn goroesi drwy gelf**

iv. Un o'n ffyrdd o goffau'r gorffennol yw trwy ddefnyddio celf, er enghraifft Tapestri Bayeux, sy'n darlunio Brwydr Hastings, lluniau Matthew Paris, mynach o St Albans, neu ddarlunwyr canoloesol eraill (gweler Rhan 2: Deunydd Hanesyddol). Gallwch gyflwyno'r syniad o ddarlunio'r storïau yr archwiliwyd o'r hanes lleol a astudiwyd:

*Tybed beth y byddem yn creu i ddarlunio brwydro rhwng y Cymry a'r Eingl Normaniaid.*
*A fyddai modd defnyddio ffotograffau o'u tableaux ar adegau arwyddocaol yn eu datblygiad fel modd o gyfuno'r digwyddiadau mewn tapestri? Ar yr adeg hon mae ffurfiau artistig/gweledol eraill yn bosibilrwydd.*

v. Pe bydden ni'n creu, o'r digwyddiadau yr archwiliwyd o storïau lleol, cerflun o berson neu grŵp o bobl, yn eich barn chi beth fyddai'n werth cofio heddiw, beth y byddai hyn a sut olwg byddai arno?

A wnewch chi ganiatau i'r plant eich cyfarwyddo chi, yr athro, i fod un o'u delweddau o lun canol oesol? Fel estyniad i hyn, gall y plant 'gerflunio' ei gilydd mewn darlun o'r hyn a fyddai'n anrhydeddu'r Cymry yn y digwyddiadau a archwiliwyd. (Mae 'cerflunio' yn gonfensiwn dramatig sy'n cael ei egluro ymhellach yn Atodiad 1).

vi. Meddu ar esiamplau o blaciau yn cofnodi pobl o hanes Cymru, a'r hyn y maen nhw'n dweud. Gwahoddwch y plant i gwestiynu'r testun ac ystyried goblygiadau ei ystyr, a dangos sut y mae hyn yn anrhydeddu eu bywydau (am esiamplau o hyn gweler Rhan 3)

Gallwch wahodd y plant i greu plac i fynd gyda'i 'cerflun' (neu dableau) neu waith celf yn cynnwys dywediad a fyddai'n berthnasol i bobl heddiw.

*Ymhle y byddech chi'n ei osod?*

Gallwch gyfeirio'n ôl at y map. Beth **allai'r** plac ddweud?

Ar yr adeg hon byddai'n syniad da gosod troshaen tryloyw dros y map. Ar y daflen hon gallwch gynnwys y lleoliadau sydd yno heddiw a sy'n aros yr un peth, er mwyn dangos newid dros cyfnod o amser. Mae'n bosib gwneud hyn gydag adeiladau, ond hefyd i ddangos llysdyfiant a da byw.

Heddiw nid oes defaid yn pori ar y mynydd; erbyn hyn ceffylau a gwartheg yr ucheldir sydd yno. Paham tybed? Mae pethau'n newid gydag amser. (Cwestiynau ynghylch beth ddigwyddodd i'r diwydiant gwlân, a sefydlwyd gan fynachod Abaty Margam)



Llwybr ar Fynydd Dinas gan Gareth James, CC BY-SA 2.0 <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0>, via Wikimedia Commons

**Ble 'rydym erbyn heddiw?**

**Creu pwrpas am ein gwaith, y tu allan i'r ystafell ddosbarth, naill ai drwy ffuglen neu drwy gyfathrebu'n uniongyrchol gyda'r gymuned.**


vii. Yn yr ystafell ddosbarth (os yw'n gais go-iawn) neu mewn drama (os yw'n ffuglennol) efallai y byddant yn cael eu gwahodd i gwrdd â gofynion y cleient.

Am esiampl ffuglennol, e.e. efallai y bydd Amgueddfa Genedlaethol Cymru (https://amgueddfa.cymru/sainffagan/http/) yn ystyried creu gwefan arlein i ymddiddori pobl ifanc. Maen nhw'n poeni nad yw pobl yr ardal yn gwybod eu hanes eu hunain, a bod gwahanol stori i'w adrodd. (Am esiampl o lythyr yn comisiynu'r plant, y byddech efallai am ei ddefnyddio neu ei addasu, gweler Rhan 3).

Dyma rhai o'r cwestiynau y gallwch eu harchwilio gyda'r plant:

- 'Ydy'r storïau hyn yn rhai y byddem yn ymddiddori ynddynt, ac yn eu rhannu heddiw?'
- 'Ydy hi'n werth gwybod hyn?'
- 'Paham y mae hanes Cymru yn bwysig i bobl Cymru?'
- 'Sut y gallwn sicrhau heddwch yn y byd sydd ohoni?'

Hefyd tystysgrif Edward II ac Isabella o Ffrainc – cedwir hwn ac mae modd ei weld, ar gais, yn Archifau Gorllewin Morgannwg (gweler https://www.swansea.gov.uk/article/13852/The-marriage-contract-of-Edward-II-1303.)



Gweler hefyd esiamplau o Fudiad Heddwch Merched De Cymru (am fanylion ynghlyn â'i pecyn i ysgolion, a chanllawiau ac adnoddau pellach, gweler 'Brwydrau, Beirdd a Chymdogion Gwyllt').

Engreifftiau o bobl eraill sydd wedi ymgyrchu dros heddwch



Cerflun Albert Toft o Henry Richards Tregaron Ceredigion 'apostol heddwch' gan gydnabod ei waith gyda'r Gymdeithas Heddwch.

Ffotograff: Roger Kidd: Wikimedia Commons



Teml Heddwch a iechyd, Cathays, Cardiff
By Ham - CC BY-SA 3.0, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=25366313

**Y Dull Ymholi Dramatig: Atodiad 1**
**Confensiynau Dramatig y cyfeirir atynt yn y llyfryn**

| **Disgrifiad o'r Confensiwn Dramatig** | **Pwrpas** |
|---|---|
| **Llefaru**<br>Mae'n bosib defnyddio hwn yn, neu y tu allan, i'r cyd-destun dramatig. Gall yr athro ddarparu dolen naratif, awyrgylch neu sylwadau, cychwyn drama, symud y weithgaredd yn ei blaen, creu tenswin ayyb. Gall gyfranogwyr hefyd adrodd yn ôl ar ffurf stori, gan ddarparu naratif i weithgareddau cysylltiedig. | Mae hwn yn darparu gwybodaeth ar ffurf gyfarwydd, gan roi siap a ffurf i weithgaredd.<br>Gall ennyn cywreinrwydd a diddordeb ac mae'n pwysleisio ymdeimlad o awyrgylch, lleoliad a disgrifiad barddol.<br>Mae'n ymwneud â theimladau/ hwyliau. |
| **Esiampl o lais naratif**<br>Naratif yr athro i gefnogi'r ddrama o guddio yn y mynyddoedd e.e:<br>'*Roedd dynion yn cuddio, rhai yn y goedwig drwchus, yngudd yn y redyn, yr ywen anferthol a grug y mêl, tra bod eraill yn symud lawr llethrau'r mynydd yn ddewr, wedi'u cuddio dros-dro gan wartheg yn pori. Gyda ehangder helaeth Bae Abertawe o'u blaenau, roeddent yn ymwybodol bod yr afon rhyngddynt â'r gelyn.* | Mae hwn yn cefnogi'r plant i ddelweddu eu lleoliadau dychmygol, fel eu bod yn filwyr Cymreig ar y mynydd. |

| | |
|---|---|
| *Roedd pwysau'r ceffylau mawr yn eu helpu i deimlo'n ddiogel a, gyda'u dwylo ar eu bwâu, roeddent yn paratoi i saethu gan ddefnyddio eu saethau a cherrig fel taflegrau. Roedd eu gwragedd, rhai ohonynt yn arbenigwyr gyda'r ffon dafl, yn y tai yn gwarchod eu plant, tra bod y plant hŷn yn helpu eu tadau i ddisgwyl y frwydr. Roedd tariannau'r Normaniaid yn disgleirio ac roedd rhygyngu eu meirch mawr yn nesáu. Roeddent wedi cyrraedd'.* | |
| **Yn Athro'n chwarae rôl**<br><br>Wrth chwarae rôl byddwch yn ymuno â'r ddrama, ond **chi** sy'n dal i reoli'r sefyllfa; nid ydych yn rhoi'r gorau i'ch gallu i gadw'r plant yn ddiogel, neu gaffael gwaith o safon uchel.<br><br>Y prif wahaniaeth rhwng gwaith rôl ac addysgu ystafell ddosbarth cyffredin yw newid iaith. Fel y mae Heathcote (1997) yn dweud, 'rydych yn siarad fel petai'r peth yn digwydd nawr', mewn geiriau eraill, dyma yw'r gwahaniaeth rhwng dweud:<br><br>'*Clywson nhw sŵn carnau ceffylau'r Normaniaid ac aethant i nôl eu harfau'*,<br><br>a dweud: | **Mae chwarae rôl yn gallu bod yn arf addysgu defnyddiol iawn. Mae'n bosibl ei ddefnyddio:**<br><br>i gyfleu gwybodaeth,<br><br>i osod her,<br><br>i gwestiynu penderfyniadau (yn enwedig os yw'r plant yn ceisio cynnig datrysiadau syml i broblemau),<br><br>gweithredu fel ffocws a thensiwn, sy'n gallu helpu dyfnhau ymgysylltiad y plant gyda'r ddrama. |

| | |
|---|---|
| *'Gallaf glywed sŵn carnau. Maen nhw'n agos. Parotowch eich arfau gyfeillion'.*<br><br>Gallwch aros mewn rôl am amser byr iawn, a chamu allan ohoni gan annerch y plant fel eu hathro. Os bydd y plant yn ymateb mewn ffordd annisgwyl, a'ch bod yn ansicr ynghylch sut i ymateb, gallwch gamu allan o fyd y stori a'i drafod gyda'r dosbarth, e.e.<br><br>*'Doeddwn i ddim yn disgwyl i Sarah ddweud 'Mae fy saeth heb awch!'*<br><br>a gallwch ddychwelyd at y gweithgaredd '*paratowch eich arfau'*. | |
| **Croesi'r Cylch**<br><br>Mae hon yn gêm rhagweladwy, heb-fygythiad, sy'n ymgorffori gweithredoedd y cymeriadau neu'r rolau mewn naratif am gyfnodau o amser byr iawn.<br><br>Mae'r cyfranogwyr yn sefyll mewn cylch. Y syniad yw bod pawb, drwy ateb cwestiwn, yn gallu croesi'r cylch ar yr un pryd gan orffen ar wahanol bwyntiau ar y perimedr. (Edmiston, 2014 p42) | Mae'r ymarfer yn ehangu dysgu cymdeithasol y cyfranogwyr.<br><br>Mae'n adeiladu ymdeimlad o gymuned yn yr ystafell ddosbarth.<br><br>Mae'r cyfranogwyr yn rhannu'r hyn y maen nhw eisoes yn gwybod, ac yn dysgu oddiwrth ei gilydd.<br><br>Mae'n hwyl, ac nid yw'n fygythiol. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Tableaux neu 'Ddelweddau Llonydd'**<br><br>Mae plant yn gyfarwydd â'r syniad o weithgaredd wedi'i rhewi drwy wylio ffilmiau a theledu, ac mae'r dechneg o ddal sefyllfa ddramatig - er enghraifft, fel marchog yn tynnu ei gleddyf, gan aros yn berffaith llonydd - yn ffordd wych o rannu syniadau heb siarad.<br><br>Mae'n werth treulio ychydig o amser yn sefydlu'r ddisgyblaeth o gael y plant i aros yn berffaith llonydd. Gallwch eu gwahodd i ddychmygu eu bod mewn ffotograff neu baentiad. | Mae'r defnydd o dableau (a elwir ambell waith yn ffrâm rhewi neu ddelwedd llonydd) yn gallu bod o ddefnydd at ddiben rheoli.<br><br>Fel arfer, mae plant yn gwerthfawrogi'n gyflym yr effaith ddramatig o ddelweddau o'u gilydd, a gall hyn ysgogi ystyriaethau dramatig o'u gwaith.<br><br>Mae'r dechneg hefyd yn fan cychwyn defnyddiol a diogel i ysgogi drama ddigymell, lle y mae'r plant yn rhoi bywyd i'w delweddau am amser byr, cyn gofyn iddynt rhewi'r weithgaredd unwaith eto. |
| **Sgyrsiau a Glywyd**<br><br>Mae'r plant yn dewis darn bach o'u sgwrs o olygfa fer neu waith byrfyfyr i rannu gyda'i cyfoedion yn yr ystafell ddosbarth.<br><br>Mae'r dosbarth yn llonydd ac yn gwrando; gall yr athro gerdded heibio i bob grŵp, neu gyffwrdd ag un ohonynt yn ysgafn ar ei ysgwydd, fel bod ganddynt gyfle i rannu darn bach o'r sgwrs (dim mwy na 3 neu 4 llinell). | Mae hyn yn cynnig cyfle i bob plentyn gyfrannu'n weithredol at y ffuglen, ac i gyfrannu ei lais ei hun.<br><br>Gallant hefyd, yn gyflym, gasglu a rhannu gwybodaeth am y rôl a'r naratif.<br><br>Maen nhw'n cael eu galluogi i wneud dewisiadau a chanolbwyntio ar hanfod yr olygfa. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Siarad dros Amser**<br><br>Yn y confensiwn hwn, gwahoddir y plant i sgyrsio gyda rhywun ar draws cyfnod o amser.<br><br>Y plant i gytuno eich bod chi, tra'n chwarae rôl, - er enghraifft y ffermwr o'r gorffennol a oedd wedi dal ceffyl FitzMatthew - yn gallu siarad â ffermwr cyfoes sy'n adrodd hanes darganfod penglog y ceffyl. Yn y ffordd yma gall y plant gynrychioli, yn dorfol, safbwynt y ffermwr a ddarganfuodd penglog y ceffyl. Serch hynny, efallai bydd y plant am siarad â'r ffermwr o'r gorffennol, gan bortreadu eu hunain.<br><br>Gwahoddwch blentyn i sefyll ar ei draed os oes ganddo gwestiwn i'r ffermwr a, cyn gofyn y cwestiwn, ei fod yn gofyn '*A gaf i/ a gawn ni fynediad at eich cyfnod chi?*' Bydd y ffermwr yn ymateb gan ddweud *'cewch'*. Yna bydd y plentyn yn gofyn ei gwestiwn neu'n gwneud ei ddatganiad. | Mae'r confensiwn hwn yn helpu'r plant i archwilio digwyddiadau'r gorffennol o safbwynt person a oedd yn byw ar yr adeg dan sylw.<br><br>Mae'n gwneud y gorffennol yn fyw, ac mae'n ffordd ddiddorol o'i archwilio. Mae gan y plant rheolaeth dros yr hyn y maen nhw am ddarganfod ynghylch y digwyddiad, ac mae hyn yn helpu'r athro i adnabod diddordebau penodol y plant.<br><br>Mae'r confensiwn hwn hefyd yn arafu'r ddrama, ac yn creu amser am fyfyrdod. Mae'r ffordd ddefodol y mae'r plant yn gofyn '*A gaf i fynediad at eich cyfnod chi?'* yn gwneud y dewis gwestiwn neu ddatganiad yn arwyddocaol. |
| **Y Llwybr Cydwybod (hefyd yn cael ei alw'n Llwybr Penderfynu a Thwnel Meddyliau)**<br><br>Mae'r dosbarth yn rhannu'n ddwy rhes i wynebu ei gilydd (gan sefyll tua metr ar wahan). Bydd yr athro / plentyn sy'n chwarae rôl benodol yn | Mae'r gêm hon yn helpu'r plant adnabod cryfderau a gwendidau y camau gweithredu. |

| | |
|---|---|
| cerdded rhwng y rhesi ar adeg o ansicrwydd neu benbleth yn y ddrama. Wrth i'r chwaraewr rôl basio pob person yn y rhes, gallant ddatgan yn uchel eu cyngor i'r rôl.<br><br>Mae'r lleisiau ym mhob rhes yn ceisio defnyddio ei gyngor unigol i berswadio'r person sy'n cerdded rhwng y rhesi. Bydd cyngor un rhes yn gwbl groes i'r cyngor a gynigir gan y rhes gyferbyn.<br><br>Bydd y plentyn/ yr athro mewn rôl wrth ganol y cyngor hwn yn symud i rhan o'r rhes y cytunwyd arni unwaith ei fod wedi clywed yr holl gyngor a gynigir. Neu efallai ei fod heb benderfynu, ac yn aros yn y canol. Mae'n werth chweil bod y chwareuwr rôl yn myfyrio gyda'r plant ynghylch y cyngor mwyaf pwerus a dderbyniwyd, cyn ei fod yn gwneud ei benderfyniad. | Mae'n rhoi cyfle i bawb ddylanwadu ar weithredoedd y rôl.<br><br>Mae'n helpu'r plant i archwilio'r gwahanol berspectifau sydd ynghlwm â gwneud penderfyniadau.<br><br>Mae'n cefnogi'r defnydd o iaith berswadiol gan y plant. |
| **Cerflunio**<br><br>Gan ddefnyddio 'cerflunio', gwahoddir y plant i'ch mowldio chi yr athro fel eich bod yn ddarn o glai neu ddeunydd cerflunio arall. Gallan nhw'r 'cerflunwyr' rhoi cyfarwyddiadau llafar i chi, neu mae'n bosib gwneud hyn gydag un o'u cyfoedion. Mae'n bosib gwneud hyn fesul grŵp neu ddosbarth cyfan | Mae'r ymarfer hwn yn grymuso'r plant i wneud penderfyniadau drwy greu delwedd 3D<br><br>Mae'n chwalu rhwystrau corfforol rhwng plant mewn ffordd diogel, gan ddarparu profiad cyffyrddol. |

| | |
|---|---|
| gyda sawl 'cerflunydd', a'r 'clai' yn cynnwys sawl person.<br><br>Gallant eich symud chi'n gorfforol, drwy symud eich braich er enghraifft, a gwneud ystum, fel sy'n briodol. Unwaith bod 'cerflun' wedi'i greu mae'n bwysig cefnogi'r plant i fyfyrio ar y 'cerflun/iau' y maen nhw wedi creu, a dadansoddi ei ystyr o fewn byd stori'r ddrama.<br><br>Gall y 'Cerfluniau' gael eu dadansoddi'n llythrennol, er enghraifft mae modd creu 'cerflun' o un o Dywysogion Afan, a rhoi iddo blac (ysgrifenedig neu lafar).<br><br>Fel athro, gallwch hyrwyddo'r gêm gydag awgrymiadau megis:<br><br>*Pan y bydd pobl yn ymweld â'r cerflun hwn beth fyddant am gofio am Arglwyddi Afan?*<br><br>*Beth y byddai bobl y cyfnod wedi dweud amdanynt?*<br><br>*Ymhle yn yr ardal bydden ni'n gallu gosod y cerflun hwn?* | Mae'n darparu cyfle i gyfathrebu syniadau mewn dadansoddiad artistig. |
| | |

| **Theatr Siambr** | |
|---|---|
| Mae fformat Theatr Siambr yn caniatáu i fyfyrwyr wneud testunau i 'sefyll allan' yn llythrennol mewn gweithredoedd dramatig mewn amser 'go-iawn', fel y mae'r theatr yn gwneud (Dorothy Heathcote, 1995)<br><br>**Gweler nodiadau mwy manwl yn Atodiad 3, gydag esiampl o'r ffordd y mae e.e. y stori gan Sally Robert Jones (gweler Rhan 3) '*The Strange Story of the Christmas Horse'* neu, os yn gweithio yn Gymraeg stori Menna Moras, (gweler Rhan 3), '*Hanes Rhyfeddol Pen Ceffyl Cwmafan'*; mae'n bosibl eu defnyddio ar gyfer Theatr Siambr.** | Diben Theatr Siambr yw annog plant i gwestiynu testun i ganfod ei ystyr a defnyddio ffurf dramatig strwythuredig ac amddiffynnol i archwilio'r naratif.<br><br>Mae hefyd yn galluogi plant i ymchwilio ystod o safbwyntiau ar ddigwyddiad cyffredin. |

## Ychydig Nodiadau ynghylch defnyddio Theatr Siambr: Atodiad 2

### Darn o 'The Strange Story of the Christmas Horse' gan Sally Robert Jones, sef esiampl o'r ffordd y gallwn ei daclo gan ddefnyddio Theatr Siambr.

"Un diwrnod roedd yr Iarll wedi anfon aelod o'i osgordd, dyn ifanc o'r enw Herbert FitzMatthew ynghyd ag ychydig filwr i weld beth roeddent yn gallu casglu o'r bobl lleol yn arglwyddiaeth Afan. Wrth gwrs, nid oedd y bobl lleol yn hapus bod yr iarll am iddynt anfon arian ato, heb sôn am anfon arian at y brenin yn Llundain bell, a dyna paham roedd y FitzMatthew ifanc yng nghwmni'r milwyr.

Sgweiar oedd Herbert Fizmatthew – roedd hynny'n golygu nad oedd eto'n farchog, ond roedd yn gwybod pe byddai'n gwneud yn dda wrth gyflawni'r ddyletswydd hon y gallai ddisgwyl gael ei wneud yn farchog, a'i alw'n Syr Herbert. Felly roedd yn marchogaeth yn braf, gan deimlo'n bwysig iaw yn ei arfwisg sgleiniog newydd, ar ei geffyl rhyfel godidog, ar flaen ei fyddin fechan. Roedd yn arbennig o falch o'i geffyl, ac roedd wedi'i enwi Pegasus ar ôl ceffyl hedegog yr hen chwedlau, oherwydd pan fyddai'n carlamu byddai'n mynd fel y gwynt, gan hedfan bron wrth fynd.

Roeddent wedi martsio heibio i bentref bychan Aberafan, yna i fyny'r dyffryn ar hyd yr afon ac i'r bryniau ond, hyd yn hyn, nid oedd unrhyw sôn o'r gelyn. Roedd hi'n dwym yn yr haul gydag ond ychydig awel a gwthiodd Herbert feisor ei helm i fyny i deimlo'r aer ffres ar ei wyneb. Edrychodd o'i gwmpas a gwelodd grŵp bach o Gymry ar y llethr uwch ei ben. Roeddent yn gwaeddu ac yn ysgwyd ffyn a phastynau.

`Gadewch inni siaso'r dihirod hynny i ffwrdd', gwaeddodd, gan ddechrau ryddhau ei gleddyf, a pharatoi am y frwydr. Ond, yr eiliad honno roedd un o'r Cymry, dyn enfawr yn meddu ar gyhyrau fel Ercwlf, wedi taflu carreg fawr ato. Tarodd y garreg FitzMatthew ar ei ben a'i daro o'i gyfrwy, a lawr ar garreg frig, lle y gorweddai mor llonydd a'r garreg. Rhuthrodd ei ddynion i'w achub, ond roedd hi'n rhy hwyr. Roedd Herbert FitzMatthew wedi marw.

Roedd y dynion mor brysur yn edrych i weld beth roedd wedi digwydd i'w harweinydd fel nad oedd neb wedi ystyried gwneud yn siwr bod Pegasus yn ddiogel. Roedd y ceffyl wedi dychryn pan syrthiodd ei feistr i'r llawr, ac roedd wedi carlamu i ffwrdd i'r dyffryn. Erbyn iddynt gofio chwilio amdano, roedd y ceffyl ymhell i ffwrdd, ac o'r golwg; er iddynt chwilio amdano am ychydig, yn y diwedd roeddent wedi rhoi'r gorau i'r dasg ac wedi dychwelyd i Gaerdydd i adrodd yn ôl i'r Iarll, gan fynd â FitzMatthew gyda nhw.

Drannoeth, daeth ffermwr o hyd i Pegasus. Tynnodd yr harnais crand oddiar y ceffyl - y cyfrwy, y ffrwyn a'r gweddill – a dododd y ceffyl yn y stabl gyda'i geffyl cart ei hun, ac yno y bu Pegasus. Dros gyfnod, roedd Pegasus wedi dod yn dad i nifer o feibion hardd, a chafodd yr hanes o sut roedd y ceffyl wedi dod i fferm Cwmclais ei drosglwyddo yn nheulu'r ffermwr a ddaeth o hyd iddo. O'r diwedd, fel ffordd o'i goffáu, defnyddiwyd penglog un o ddisgynyddion Pegasus i lunio Mari Lwyd".

**Cymhwyso stori Sally Robert Jones fel Theatr Siambr.**

Os byddwch yn defnyddio stori Sally Roberts Jones i greu darn o Theatr Siambr, cewch eich cefnogi gan ei thestun, sy'n cynnwys gweithredu ac areithio clir.

Gadewch inni ddechrau gyda'r digwyddiad. Yn yr achos hwn, marwolaeth Herbert FitzMatthew, a'r digwyddiadau yn arwain ato. Gallwn ddefnyddio'r testun fel naratif canolog i'w adrodd gan adroddwr/ adroddwyr o'n dewis.

Os wnawn ystyried y cam cynnar, sef 'Pwy sy'n adrodd y stori neu'r adroddiad? gallwch ddewis o nifer, gan gynnwys:

- FitzMatthew ei hun
- un o'i filwyr,
- Pegasus, ei geffyl,
- un o'r Cymry ar lethrau'r bryn
- ffermwr o'r cyfnod
- un o feibion Pegasus

- fferwmr cyfoes sy’n dod o hyd i benglog Pegasus, neu sy’n berchen ar un o ddisgynyddion Pegasus
- un o ddisgynyddion FitzMatthew wrth iddo sefyll ger ei garreg coffa A bydd eraill y gallwch chi a’r plant ddychmygu.

Mae penderfynu ar hyn, chwedl Heathcote, yn gwneud i’r plant astudio’r testun yn agos iawn er mwyn ei archwilio’n ddyfnach. Bydd y cymeriad sy’n adrodd y stori yn penderfynu ar leoliad y person sy’n adrodd y stori, ac i bwy y maen nhw’n ei adrodd ac ar ba adeg. Ydyd’r stori yn y presennol? Y gorffennol? Er enghraifft, gallai un o ddisgynyddion FitzMatthew fod yn sefyll ger ei fedd neu ei garreg goffa ac yn adrodd hanes y digwyddiad i’w fab neu ei ŵyr yn 2024. Gallwn osod yr adroddwr yn ei le ar gyfnod o’n dewis ni. Wrth iddynt adrodd y stori, bydd eraill yn cyfleu gweithredoedd y cymeriadau, ac yn codi’r stori fel sy’n briodol ac, yn arbennig, yn lleisio’r ymatebion llafar o fewn y testun.

Os edrychwn ar ‘A Christmas Carol’ gan Charles Dickens, mae gan yr adroddwr hollwybodus y grym i ddiwallu llawer o rolau, o wahanol safbwyntiau; mae un esiampl yn cynnwys cymeriadau ysbrydion y gorffennol, y presennol a’r dyfodol, ac mae pob un ohonynt yn gweithredu fel adroddwyr yn y testun ysgrifenedig ac yn y fersiynau ffilm niferus.

**Ffrâm ysgrifennu i gefnogi grŵp o blant wrth iddynt greu darn o Theatr Siambr.**

Dyma ffrâm ysgrifennu awgrymedig a allai eich helpu chi a'r plant i roi tro ar y dull hwn, yn enwedig os 'rydych am i'r plant ganolbwyntio ar destun a defnyddio drama mewn ffordd gefnogol ac amddiffynnol.

**Digwyddiad**……………………………………………………………………

**Adroddwr/adroddwyr** O ba safbwynt bydd yr hanes yn cael ei adrodd? Pwy fydd yn cofio'r digwyddiad? Pwy sy'n debygol o fod wedi clywed am y digwyddiad?

**Adroddwr/adroddwyr**…………………………………………………………

A fydd y digwyddiad yn cael ei ail-adrodd yn yr amser gorffennol neu'r presennol, neu'n cael ei leoli yn y dyfodol dychmygol?

**Adeg adrodd hanes y Digwyddiad**……………………………………………………………….

**Deialog** Pa ddeilaog o'r testun y byddwch yn cynnwys, a pha gymeriad o'r cyfnod fydd yn adrodd y llinellau hyn? Ymhle mae ef/hi wedi'i leoli/lleoli? Beth mae ef/hi yn gwneud?

**Deialog**………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………

COFIWCH

Gallwch gynnwys seiniau, rhai penodol ac ymhlyg, o'r testun i adeiladu ar awyrgylch y naratif.

**Gobeithiwn y bydd y dull yma o gyflwyno hanes yn gweithio'n dda i'r plant ac i chwithau. Fe fasen ni wrth ein boddau glywed oddi wrthych am y ffordd y defnyddiwch yr adnoddau yma.**

**Cysylltwch â ni: contact@calonafan.org**

**Mae CALON AFAN yn gwmni buddiant cymunedol a leolir ym Mhort Talbot; ein cenhedaeth yw archwilio a rhannu hanesion llai adnabyddus Port Talbot a Chwm Afan.**

**'Rydym yn gweithio'n ddiwyd i osod Port Talbot a Chwm Afan ar y map, am ei dreftadaeth ac hanes unigryw.**

Delwedd ar y clawr blaen: Richard Marshal unhorses Baldwin Guines at a skirmish before the Battle of Monmouth in 1233. From the *Historia Major* of Matthew Paris, Cambridge, Corpus Christi College Library, vol 2, p. 85. MS 16, fol. 88r

**CALON AFAN**

Cwmni Buddiant Cymunedol Calon Afan Community Interest Company

2 Brookway Close, Port Talbot, SA12 8EL    Rhif y Cwmni/Company number: **15284549**

**www.calonafan.org**